***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 2914 (Cy. 244)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL DATGANOLI, CYMRU CYNRYCHIOLAETH Y BOBL

## Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Etholiadau: Papurau Enwebu) (Ffurflen Gymraeg) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *15 Awst 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *16 Awst 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Gweinidog priodol gan adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993([1]) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

(**1**) 1993 p. 38. I gael ystyr "the appropriate Minister" *gweler* adran 27(4) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. O dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn), i'r graddau yr oedd y swyddogaeth a enwyd i "the appropriate Minister" yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, fe'i gwnaed yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gan unrhyw un o Weinidogion y Goron yr oedd y pŵer hwnnw yn arferadwy ganddo.